

## **Atebion i Gwestiynau nas cyrhaeddwyd yn y Cyfarfod Llawn Answers to Questions not reached in Plenary**

[R] *yn nodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.*

[R] signifies that the Member has declared an interest.

[W] *yn nodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg.*

[W] signifies that the question was tabled in Welsh.

### **Cynnwys Contents**

- 1 Cwestiynau ar Lywodraeth Leol i'r Gweinidog Cyllid  
Questions on Local Government to the Finance Minister
- 3 Cwestiynau i'r Gweinidog dros Addysg a Dysgu Gydol Oes  
Questions to the Minister for Education and Lifelong Learning

### **Cwestiynau ar Lywodraeth Leol i'r Gweinidog Cyllid Questions on Local Government to the Finance Minister**

#### **Pwysau Ariannol ar Lywodraeth Leol Financial Pressures on Local Government**

**C9 Alun Ffred Jones:** Pa drafodaethau diweddar y mae'r Gweinidog wedi eu cynnal gyda llywodraeth leol parthed y pwysau ariannol ar lywodraeth leol? OAQ0404(LGP)

**Y Gweinidog Cyllid (Sue Essex):** Yr wyf yn cael cyfarfodydd rheolaidd â chynrychiolwyr o lywodraeth leol pan drafodir ystod eang o faterion gan gynnwys y pwysau sydd ar lywodraeth leol. Is-grŵp gwariant y fforwm ymgynghorol ar gyllid yw'r cyfrwng ar gyfer ystyried y pwysau o ran costau a fydd yn wynebu awdurdodau lleol ar draws Cymru yn y dyfodol. Cafodd is-grŵp gwariant y flwyddyn hon ei gytuno gan y fforwm ymgynghorol ar gyllid ym mis Gorffennaf.

**Q9 Alun Ffred Jones:** What recent discussions has the Minister held with local government regarding the financial pressures facing local government? OAQ0404(LGP)

**The Finance Minister (Sue Essex):** I have regular meetings with local government representatives at which a wide range of issues is discussed, including pressures facing local government. The expenditure sub-group of the consultative forum on finance provides the mechanism for considering future cost pressures for local government across Wales. The consultative forum on finance agreed this year's expenditure sub-group in July.

#### **Ailfandio'r Dreth Gyngor Council Tax Rebanding**

**Q10 Kirsty Williams:** Will the Minister make a statement on the effect of council tax rebanding in Powys? OAQ0352(LGP)

**Sue Essex:** In Powys, 52 per cent of properties have remained in the same band,

**C10 Kirsty Williams:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am effaith ailfandio'r dreth gyngor ym Mhowys? OAQ0352(LGP)

**Sue Essex:** Mae 52 y cant o eiddo ym Mhowys wedi aros yn yr un band, 6.6 y cant

6.6 per cent of properties have gone down one or more bands, and 41 per cent of properties have gone up one or more bands. Of those, 1,129 appeals have been received, 37 have been agreed and 36 have been turned down or withdrawn.

wedi gostwng o leiaf un band a 41 y cant wedi codi o leiaf un band. O blith y rheiny, mae 1,129 o apelau wedi dod i law ac mae 37 wedi'u derbyn a 36 wedi'u gwrthod neu eu tynnu yn ôl.

### **Dyrannu Adnoddau Allocating Resources**

**Q11 Eleanor Burnham:** Will the Minister make a statement on the allocation of resources to local government? OAQ0354(LGP)

**C11 Eleanor Burnham:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am ddyrannu adnoddau i lywodraeth leol? OAQ0354(LGP)

**Sue Essex:** The provisional settlement is due to be announced on 20 October. The draft budget published recently indicates that the allocation for revenue support grant for 2006-07 is currently £3.4 billion, up 4.2 per cent on 2005-06. This provides an additional £9 million on the increase published in the supplementary budget in March.

**Sue Essex:** Bwriedir cyhoeddi'r setliad dros dro ar 20 Hydref. Mae'r gyllideb ddrafft, a gyhoeddwyd yn ddiweddar, yn dangos bod £3.4 biliwn wedi'i neilltuo ar gyfer y grant cynnal refeniw yn 2006-07, sy'n gynydd o 4.2 y cant ar y cyfanswm ar gyfer 2005-06. Mae hyn yn gyfystyr â £9 miliwn ar ben y cynnydd a gyhoeddwyd yn gyllideb atodol ym mis Mawrth.

### **Strategaeth y Cymoedd The Valleys Strategy**

**Q12 Gwenda Thomas:** Will the Minister make a statement on the recent launch of the Valleys strategy by Neath Port Talbot County Borough Council? OAQ0396(LGP)

**C12 Gwenda Thomas:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am lansiad diweddar strategaeth y Cymoedd gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot? OAQ0396(LGP)

**Sue Essex:** I welcome all initiatives by our partners to help to create more prosperous, healthy, better-educated and sustainable communities. By working together, we can make progress in tackling the issues that affect our Valley communities and make a real difference to these areas of Wales.

**Sue Essex:** Yr wyf yn croesawu pob menter a sefydlir gan ein partneriaid i greu cymunedau cynaliadwy sy'n iachach, yn fwy llewyrchus ac yn cael eu haddysgu'n well. Drwy gydweithio, gallwn fynd i'r afael â'r problemau sy'n wynebu cymunedau'r Cymoedd a newid pethau er gwell yn yr ardaloedd hyn.

### **Toriadau Cyllid Funding Cuts**

**Q13 Laura Anne Jones:** Will the Minister make a statement on how UK Treasury funding cuts affect local authority budgets in Wales? OAQ0377(LGP)

**C13 Laura Anne Jones:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am sut y mae toriadau cyllid Trysorlys y DU yn effeithio ar gyllidebau awdurdodau lleol yng Nghymru? OAQ0377(GP)

**Sue Essex:** There have been no funding cuts applied by HM Treasury. The last spending review in 2004 increased our budget by 21

**Sue Essex:** Nid yw Trysorlys ei Mawrhydi wedi torri'r gyllideb. O ganlyniad i'r adolygiad diwethaf o wariant yn 2004, bu

per cent over the applicable period, equating to a real terms increase of 4 per cent per annum in the Assembly's departmental expenditure limit.

cynnydd o 21 y cant yn ein cyllideb dros y cyfnod perthnasol. Mewn termau real, mae hyn yn gyfystyr â chynnydd o 4 y cant y flwyddyn yn nherfynau gwariant adrannol y Cynulliad.

### **Adolygiad Lyons The Lyons Review**

**C14 Alun Ffred Jones:** Pa drafodaethau diweddar y mae'r Gweinidog wedi eu cynnal parthed adolygiad Lyons o gyllid llywodraeth leol? OAQ0410(LGP)

**Q14 Alun Ffred Jones:** What recent discussions has the Minister held regarding the Lyons review on local government funding? OAQ0410(LGP)

**Sue Essex:** Yr wyf wedi siarad â Syr Michael Lyons ynghylch cylch gwaith estynedig ei ymchwiliad. Bydd Llywodraeth Cynulliad Cymru'n cyflwyno ymateb ffurfiol i'r ymchwiliad yn fuan a chaiff copi ei anfon at aelodau'r Pwyllgor Llywodraeth Leol a Gwasanaethau Cyhoeddus a'i osod ar y rhyngwrwyd.

**Sue Essex:** I have spoken to Sir Michael Lyons about the extended remit for his inquiry. The Welsh Assembly Government will make a formal submission to the inquiry shortly and a copy will be circulated to members of the Local Government and Public Services Committee and placed on the internet.

### **Democratiaeth mewn Llywodraeth Leol Local Government Democracy**

**Q15 Owen John Thomas:** Will the Minister make a statement on local government democracy? OAQ0372(LGP)

**C15 Owen John Thomas:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am ddemocratiaeth mewn llywodraeth leol? OAQ0372(LGP)

**Sue Essex:** The Electoral Commission's report 'Local elections in Wales 2004' will be the benchmark for the future. With our new elections planning group, we will continue to share information and promote best practice in electoral administration. I will shortly publish revised guidance on political structures, which will strengthen internal democracy.

**Sue Essex:** Adroddiad y Comisiwn Etholiadol, 'Etholiadau lleol yng Nghymru', fydd y llinyn mesur ar gyfer y dyfodol. Drwy'r grŵp cynllunio etholiadau a sefydlwyd gennym yn ddiweddar, byddwn yn parhau i rannu gwybodaeth a meithrin arfer gorau ym maes gweinyddu etholiadau. Yr wyf ar fin cyhoeddi canllawiau diwygiedig ar strwythurau gwleidyddol a fydd yn atgyfnerthu democratiaeth o fewn llywodraeth leol.

### **Cwestiynau i'r Gweinidog dros Addysg a Dysgu Gydol Oes Questions to the Minister for Education and Lifelong Learning**

**Q4 Ann Jones:** Will the Minister make a statement on measures to combat school arson? OAQ0463(ELL) *Transferred for written answer by the Minister for Social Justice and Regeneration.*

**C4 Ann Jones:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar fesurau i fynd i'r afael â llosgi ysgolion yn fwriadol? OAQ0463(ELL) *Trosgrwyddwyd i'w ateb yn ysgrifenedig gan y Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio.*

**The Minister for Social Justice and Regeneration (Edwina Hart):**

**Y Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio (Edwina Hart):**

Recommendations arising from the 'Up in Flames' report into arson are being carried forward. In addition, we have also provided almost £400,000 to fit sprinklers in two high-risk schools.

Mae argymhellion sy'n deillio o'r adroddiad 'Up in Flames' ar losgi bwriadol yn cael eu rhoi ar waith ar hyn o bryd. Yr ydym hefyd wedi rhoi bron i £400,000 i osod systemau taenellu dŵr mewn dwy ysgol ble mae'r risg o losgi'n fwriadol yn uchel.

*Atebwyd cwestiynau 5 i 8 yn y Cyfarfod Llawn.  
Questions 5 to 8 were answered in Plenary.*

### **Caffael yn y Sector Addysg Uwch Procurement in the Higher Education Sector**

**C9 Jocelyn Davies:** Will the Minister make a statement on procurement in the higher education sector? OAQ0469(ELL)

**C9 Jocelyn Davies:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar gaffael yn y sector addysg uwch? OAQ0469(ELL)

**The Minister for Education and Lifelong Learning (Jane Davidson):** The Higher Education Funding Council for Wales is now implementing the recommendations made by the Audit Committee in its report on procurement in higher education. I expect the higher education sector to generate procurement and value-for-money savings of 3 per cent by 2008, with a target of £3.8 million in year 1 of the programme.

**Y Gweinidog dros Addysg a Dysgu Gydol Oes (Jane Davidson):** Mae Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru wrthi'n gweithredu'r argymhellion a wnaed gan y Pwyllgor Archwilio yn ei adroddiad ar gaffael yn y sector addysg uwch. Erbyn 2008, disgwyliaf i'r sector wneud arbedion o 3 y cant diolch i'r system gaffael ac arbedion gwerth am arian. Y nod ym mlwyddyn gyntaf y rhaglen yw arbed £3.8 miliwn.

### **Cyllideb Addysg Uwch Drwy Gyfrwng y Gymraeg Budget for Welsh-medium Higher Education**

**C10 Alun Ffred Jones:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar gyllideb addysg uwch drwy gyfrwng y Gymraeg? OAQ0453(ELL)

**Q10 Alun Ffred Jones:** Will the Minister make a statement on the budget for Welsh-medium higher education? OAQ0453(ELL)

**Jane Davidson:** Fel rhan o'n cynlluniau presennol, mae dros £7 miliwn yn cael ei ddarparu i ddatblygu capasiti ac i gydnabod costau penodol y ddarpariaeth ddwyieithog ar gyfer y cyfnod 2005-06 i 2007-08. Mae hynny'n ychwanegol at yr arian sylweddol sy'n cael ei ddarparu i gynorthwyo addysgu a dysgu, beth bynnag y bo'r iaith hyfforddi.

**Jane Davidson:** On current plans, over £7 million is being provided to develop capacity and in recognition of the specific costs of bilingual provision for the period 2005-06 to 2007-08. This is in addition to the substantial funds provided to support teaching and learning irrespective of the language of instruction.

### **Darpariaeth Addysg Uwch Drwy Gyfrwng y Gymraeg Provision of Welsh Medium Education**

**C11 Alun Ffred Jones:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar y ddarpariaeth ar gyfer addysg uwch drwy gyfrwng y Gymraeg? OAQ0452(ELL)

**Q11 Alun Ffred Jones:** Will the Minister make a statement on the provision of Welsh-medium education? OAQ0452(ELL)

**Jane Davidson:** Fe'ch cyfeiriad at yr ateb a roddais i OAQ0453(ELL) uchod.

**Jane Davidson:** I refer you to my answer to OAQ0453(ELL), above.

### **Cynorthwyr Dysgu ac Addysgu Learning Teaching Assistants**

**C12 Kirsty Williams:** What is the Minister's policy on putting learning teaching assistants in classrooms as cover for qualified teachers? OAQ0431(ELL)

**C12 Kirsty Williams:** Beth yw polisi'r Gweinidog ar roi cynorthwyr dysgu ac addysgu mewn ystafelloedd dosbarth i gyflenwi ar ran athrawon cymwysedig? OAQ0431(ELL)

**Jane Davidson:** I am very clear that teachers and school support staff are not interchangeable. Support staff with suitable skills, expertise and experience may work with pupils in support of, and under the direction of, a qualified teacher. Responsibility for learning outcomes of pupils will always rest with a qualified teacher.

**Jane Davidson:** Yr wyf yn bendant na ddylai staff cymorth ysgwyddo dyletswyddau athrawon. Dan gyfarwyddyd athrawon cymwysedig, gall staff cymorth a chanddynt y profiad, yr arbenigedd a'r sgiliau priodol, weithio gyda disgyblion er mwyn cynorthwyo athrawon. Athrawon cymwysedig sy'n gyfrifol am gyrhaeddiad addysgol disgyblion bob amser.

*Tynnwyd cwestiwn 13 OAQ0778(FM) yn ôl.  
Question 13 OAQ0778(FM) has been withdrawn.*

### **Ariannu Addysg Uwch Higher Education Funding**

**Q14 Michael German:** Will the Minister make a statement on the funding of higher education? OAQ0429(ELL)

**C14 Michael German:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar ariannu addysg uwch? OAQ0429(ELL)

**Jane Davidson:** The draft Assembly budget reflects our commitment that the higher education sector should not be financially disadvantaged by the introduction of variable tuition fees in England. It includes provision for a supplementary income stream worth £30 million for the academic year, 2006-07.

**Jane Davidson:** Mae cyllideb ddrafft y Cynulliad yn adlewyrchu ein hymrwymiad i sicrhau nad yw'r sector addysg uwch yng Nghymru yn dioddef yn ariannol o ganlyniad i gyflwyno ffioedd dysgu amrywiadwy yn Lloegr. Mae'r gyllideb yn cynnwys ffrwd incwm atodol o £30 miliwn ar gyfer blwyddyn academiaidd 2006-07.

### **Ceisiadau Ôl-gymhwyso Post-qualification Applications**

**Q15 Lynne Neagle:** What discussions has the Minister had relating to the proposals on post-qualification applications? OAQ0411(ELL)

**C15 Lynne Neagle:** Pa drafodaethau y mae'r Gweinidog wedi eu cael ynghylch y cynigion ar geisiadau ôl-gymhwyso? OAQ0411(ELL)

**Jane Davidson:** My department has been represented on the interdepartmental group set up to consider this, following recommendations made by Professor Steven Schwartz in last year's independent review of fair admissions. Representatives of

**Jane Davidson:** Mae fy adran wedi'i chynrychioli ar y grŵp cydadranol a sefydlwyd i drafod y mater hwn yn dilyn yr argymhellion a wnaed y llynedd gan yr Athro Steven Schwartz yn ei adolygiad o fynediad teg i addysg uwch. Yr oedd cynrychiolwyr o

education in Wales were consulted on proposals as they were developed and prior to the formal issue of the current consultation.

fyd addysg yng Nghymru yn rhan o'r trafodaethau ar y cynigion wrth iddynt gael eu datblygu a chyn lansio'r broses ymgynghori gyfredol.